PWYLLGOR CRAFFU'R ECONOMI A DIWYLLIANT

DYDD IAU, 17 IONAWR 2019

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Howells(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Henshaw, Gordon, Robson a/ac Stubbs |

50 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Gavin Hill-John a Satter.

51 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni chafwyd unrhyw rai.

52 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Rhagfyr 2018 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

53 : GLL - ADOLYGIAD

Croesawodd y Cadeirydd Jason Curtis a Dawn Pinder o GLL, ynghyd â'r Cynghorydd Peter Bradbury (yr Aelod Cabinet dros Ddiwylliant a Hamdden), Jon Maidment (Rheolwr Gweithredol Parciau a Chwaraeon) a Sarah Stork (Rheolwr y Gwasanaethau Cleientiaid Hamdden) i'r cyfarfod.

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau fod yr eitem hon yn eu galluogi i adolygu'r bartneriaeth 15 mlynedd â GLL (Greenwich Leisure Limited) a ddaeth yn gyfrifol am redeg 8 canolfan hamdden yng Nghaerdydd. Galluogodd yr eitem hon i'r Aelodau werthuso'r cynnydd sydd wedi'i wneud yn ail flwyddyn y contract, gan gynnwys ystyried y rhaglen gyfalaf, cyfraddau cyfranogiad a defnydd ac a oes unrhyw newidiadau i ymrwymiadau'r Cyngor neu i risgiau'r Cyngor.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cynghorydd Bradbury i wneud datganiad a dywedodd ei bod wedi bod yn flwyddyn dda ar gyfer y bartneriaeth gyda chynnydd enfawr yn cael ei wneud mewn nifer o feysydd; roedd boddhad cwsmeriaid wedi cynyddu ac mae pobl bellach yn deall y bartneriaeth rhwng GLL a'r Cyngor. Dywedodd yr oedd GLL wedi cyflawni'r holl addewidion oedd wedi'u gwneud ac roedd cyfarfodydd a gynhaliwyd ganddo'n dda gyda thrafodaethau agored i fynd â phethau yn eu blaen; gan ychwanegu bod mwy o gyfarfodydd i'w cynnal nag erioed cyn y bartneriaeth, a bod pethau'n cael eu cyflawni'n gynt. Dywedodd yr Aelodau fod cyfleoedd yn y flwyddyn nesaf i fynd â'r gwasanaeth hamdden sydd ar gynnig yn ei flaen.

Cafodd yr Aelodau gyflwyniad gan Jason Curtis a gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd nod y contract i weithredu heb gymhorthdal yn gyfan gwbl erbyn 20/20 ar y trywydd iawn a dywedwyd wrthynt nad oedd y cyfrifon blwyddyn lawn ar gael eto ond nid oedd cynnydd enfawr wedi'i wneud tuag at hyn.

Gofynnodd yr Aelodau, gan gyfeirio at athreuliad, a oedd y ffigwr hwn ar ôl y bobl hynny nad ydynt yn adnewyddu eu haelodaeth a dywedwyd wrthynt fod hynny'n gywir.

Roedd yr Aelodau am wybod ble mae'r ddarpariaeth i fenywod yn unig a dywedwyd wrthynt ei bod ar gael ym Maendy a'i bod hefyd yn cael ei darparu yn yr Hyb Star.

Nododd yr Aelodau fod mwy o bobl yn mynd i'r canolfannau hamdden a gofynnon nhw sut mae hyn yn ymwneud â tharged GLL.  Dywedwyd wrth yr Aelodau ei fod yn 2% yn uwch na'r targed.

Roedd yr Aelodau am wybod a gafwyd unrhyw adborth gan y cyhoedd ar y cyfleusterau newydd a dywedwyd wrthynt fod adborth wedi'i gael ac yr oedd yn dda yn gyffredinol; roedd rhywfaint o darfu wrth gynnal gwaith ar y safleoedd, ond roedd y gwaith hwnnw'n cael ei wneud yn unol â'r amserlenni ac roedd gwasanaethau wedi'u darparu.  Nododd yr Aelodau fod boddhad cwsmeriaid wedi cynyddu gan 5% ar y flwyddyn flaenorol.

Cysylltwyd ag Aelod ynghylch yr ystafelloedd newid yn yr Hyb Star a dywedwyd wrtho yr oedd cwsmer yn teimlo'n agored iawn i niwed; nododd yr Aelodau y cyflwynodd deiseb i'r Cyngor am hyn.  Trafododd yr Aelodau Ystafelloedd Newid Cyffredinol. Nodwyd bod Swyddogion wedi cydgysylltu â GLL ar hyn, roedd ystafelloedd newid cyffredinol yn arferol ar draws y diwydiant ac yn galluogi i deuluoedd eu defnyddio.  Dywedodd yr Aelod Cabinet fod GLL yn cymryd diogelu o ddifrif ac er bod yr Hyb Star yn safle a rennir, y Cyngor sy'n gyfrifol am ddiogelwch y safle cyfan. Mae nifer bach o gwynion wedi'u cael o ran camddefnydd, nid yw pobl yn hoffi'r duedd fodern o ystafelloedd newid cyffredinol.  Ychwanegodd yr Aelod Cabinet, os bydd pryderon yn parhau, y dylai'r Aelodau gysylltu â GLL a'r Cabinet a chyflwyno tystiolaeth, ac wedyn ymchwilir i'r mater.  Dywedodd yr Aelod Cabinet fod ystafelloedd newid cyffredinol yn gyffredin mewn lleoedd megis Bluestone ac roedd yn fodlon bod y diogelu'n iawn, a bod risgiau'n gyfyngedig cymaint â phosibl; ychwanegodd fod ardaloedd sychu i ddynion a menywod yn unig yn ogystal â'r ardal newid gyffredinol, sydd hefyd yn cynnwys ciwbiclau unigol.

Trafododd yr Aelodau hyfforddiant staff a gofynnon nhw a yw'r holl staff wedi'u hyfforddi i ddefnyddio diffibrilwyr ac i roi cymorth cyntaf, i'w galluogi i ofalu am bobl y'u targedir i ddefnyddio'r gwasanaeth er manteision iechyd.  Dywedwyd wrth yr Aelodau bod yr holl staff wedi'u hyfforddi yn rhan o'u datblygiad, ac yn cael eu hyfforddi ar ddiffribrilwyr bob tri mis.

Nododd yr Aelodau bod boddhad cwsmeriaid yn cael ei fesur a gofynnon nhw a yw cwynion hefyd yn cael eu mesur.  Dywedwyd wrth yr Aelodau bod GLL yn adrodd yn rheolaidd i gleientiaid ond ffigurau yw'r rhain yn lle canrannau, ond gellir gwneud hyn wrth fynd ymlaen.

Gan gyfeirio at Safonau'r Gymraeg, gofynnodd yr Aelodau a oes unrhyw feysydd nad ydynt yn cael eu bodloni a dywedwyd wrthynt nad oes, mae pob darn o ohebiaeth a gwybodaeth yn ddwyieithog yn ogystal â'r wefan a'r ffurflenni Ymgeisio am Swydd; defnyddiwr Caerdydd Ddwyieithog fel y gwasanaeth cyfieithu.  Dywedwyd wrth yr Aelodau bod gwersi Nofio Cymraeg yn cael eu cynnig hefyd.

Gofynnodd yr Aelodau am fwy o wybodaeth am Sgyrsiau Swyddi a dywedwyd wrthynt mai gwerthusiadau oedd y rhain.

Nododd yr Aelodau welliant o ran cyfraddau absenoldeb salwch a gofynnon nhw am yr hyn sydd wedi'i wneud i leihau hyn. Dywedwyd wrth yr Aelodau ei bod yn gymysgedd o bethau gan gynnwys cyswllt rheolaidd, cyfarfodydd, cymorth ac atgyfeiriadau cyflym i'r adran iechyd galwedigaethol. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod lefelau absenoldeb salwch yn amrywio trwy'r flwyddyn ond ym mis Rhagfyr y ganran oedd 5.6% CALl.

Trafododd yr Aelodau Drac Beicio Maendy a Maindy Flyers, gan nodi gwaith y gwirfoddolwyr. Dywedodd yr Aelod Cabinet ei fod wedi cwrdd â nhw yn ystod yr haf ac roedd llawer o bobl yn ymuno â'r clwb; mae ganddynt uchelgeisiau a bydd y Cyngor a GLL yn eu cefnogi gan eu bod yn ased i'r ganolfan hamdden.

O ran Buddsoddiadau Cyfalaf, gofynnodd yr Aelodau a yw'r gyllideb yn ddigonol ar gyfer y gwaith neu a oes unrhyw gostau nas rhagwelwyd. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod llawer o waith/projectau eisoes wedi'i/u gwneud ac roedd rhywfaint o arian ar ôl; roedd GLL yn hyderus y byddai'n ei wario'n dda ond gallai bob amser wneud mwy. Ychwanegodd Swyddogion fod y Cyngor yn gyfrifol am y tu allan i'r adeiladau a'r toeau a'i fod wedi buddsoddi yn y maes hwn.

Nododd yr Aelodau fod craffu yn y gorffennol wedi nodi bod caffis mewn canolfannau hamdden yn cau a gofynnon nhw a yw hyn wedi cael unrhyw effaith. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod dal i fod pobl a fyddai'n hoffi cael caffis ond nid yw GLL wedi cael llawer o geisiadau; mae GLL yn edrych i weld a oes cyfleoedd i weithio gyda chyfleusterau cymunedol ar gyfer y canolfannau mwy.

Gan gyfeirio at leihau cymhorthdal y Cyngor, gofynnodd yr Aelodau a oes cynlluniau i godi ffioedd am glybiau i wneud iawn am hyn a dywedwyd wrthynt nad oes cynlluniau i godi ffioedd yn fwy na chwyddiant. Ychwanegodd Swyddogion fod y contract yn llym yn y maes hwn ac yn gosod terfynau ynghylch codi prisoedd. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet nad ydynt yn derbyn unrhyw gwynion am y prisoedd; mae bwrdd ymgysylltu'r project wedi cynnal trafodaethau ynghylch gwella gwasanaethau a darparu mwy o wasanaethau i greu mwy o incwm.

Canmolodd yr Aelodau y gwaith yr oedd GLL wedi'i wneud gyda Llyfrgelloedd, yr Heddlu a'r Hybiau mewn amgylchiadau sy'n newid.

Nododd yr Aelodau fod trigolion yn hoffi'r Hyb Star ond roeddent yn bryderus nad oes unrhyw sesiynau bore cynnar i alluogi pobl i fynd cyn gwaith a gofynnon nhw a oes unrhyw gynlluniau i ymestyn oriau agor er mwyn cystadlu gyda'r sector preifat. Dywedwyd wrth yr Aelodau y gall GLL addasu i amgylchiadau lleol a phe bai galw gellir rhoi cynnig ar wneud hynny, hyd yn oed am un diwrnod yr wythnos i'w dreialu. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet fod hyn wedi'i adrodd yn ôl i Fwrdd Cydgysylltu'r Project, os gellir dangos yr angen amdano yna dylid rhoi cynnig arno oherwydd gallai dyfu sylfaen cwsmeriaid a helpu i leihau'r cymhorthdal.

O ystyried y dosbarthiadau sydd ar gael, gofynnodd yr Aelodau sut mae GLL yn gwneud o ran nifer y dosbarthiadau sy'n cael eu cynnig a'r bobl sy'n mynd iddynt. Dywedwyd wrth yr Aelodau ei fod wedi lleihau nifer y dosbarthiadau ond roeddynt yn dechrau cynyddu eto; gan ychwanegu y byddai'n ystyried cynnal mwy o

ddosbarthiadau pe bai llawer o bobl yn mynd iddynt. Mae'r cyfan ar sail galw. Mae hyrwyddo dosbarthiadau'n allweddol hefyd. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod Aelodaeth Iau wedi cynyddu a bod GLL yn edrych ar sesiynau ffitrwydd i Grwpiau sy'n ymateb i anghenion y gymuned ac ar hyn o bryd roedd yn ychwanegu dosbarthiadau megis Ioga a Pilates.

PENDERFYNWYD: y câi barn y pwyllgor ei thrafod yn ystod y rhan o'r cyfarfod lle byddai'r ffordd ymlaen yn cael ei thrafod ac y câi llythyr ei anfon at yr Aelod Cabinet maes o law.

54 : BUSNES Y PWYLLGOR

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau i'r eitem hon eu galluogi i ystyried gohebiaeth, derbyn copi o gynigion cyllidebol perthnasol i ymgynghori arnynt, derbyn copi o Adroddiad Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru Blynyddol ar gyfer 2017-18 ac ymateb y Cyngor i hyn a manylion am gofnodion y pwyllgor craffu ar y Fargen Ddinesig o'i gyfarfod ym mis Hydref 2018.

Dywedodd y Swyddog Craffu fod nifer o ymatebion i'w cael o hyd i lythyr y Cadeirydd a gofynnodd y Cadeirydd i ddilyn trywydd y rhain.

Dywedwyd wrth yr Aelodau mai cyfarfod Craffu ar y Gyllideb fyddai'r cyfarfod nesaf ac amlinellodd y Swyddog Craffu'r prif gynigion ar gyfer cyllideb y Pwyllgor; gan ddweud bod Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol ar gael ar wefan y Cyngor a thrwy glicio ar y ddolen yn y blaenadroddiad a byddai gan y rhain fwy o fanylion na'r llinellau cyllideb.

Nododd yr Aelodau i Artes Mundi gysylltu â nhw a dywedodd y Cadeirydd na fyddai'n cysylltu â nhw i ofyn a fyddent yn dymuno ei drin yn gyflwyniad ysgrifenedig.

Gan gyfeirio at Safonau Llyfrgell Gyhoeddus, dywedodd y Swyddog Craffu y daeth yr eitem hon i'r pwyllgor yn y gorffennol fel eitem unigol ond gan nad oes unrhyw faterion go iawn wedi bod daeth yn rhan o fusnes y pwyllgor y tro hwn. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod Caerdydd yn bodloni 11 o'r 12 hawliau craidd a byddai'n bodloni'r un olaf erbyn diwedd y chwarter hwn; o'r targedau dangosydd ansawdd, roedd 2 wedi'u bodloni'n llawn, 2 yn rhannol ac nid oedd 1 wedi'i fodloni. Mewn perthynas ag ymateb Tai a'r Gymuned, dywedwyd wrth yr Aelodau ei fod yn nodi mai Caerdydd sydd â'r sgôr uchaf yng Nghymru a'i fod yn nodi'r camau nesaf mewn perthynas â hybiau llesiant, roedd gwaith mapio'n cael ei wneud ar hyn o bryd. Nododd yr Aelodau fod staff fesul pen o'r boblogaeth mewn perthynas â Hybiau'n broblem o hyd.

Dywedodd y Swyddog Craffu wrth yr Aelodau am Gydbwyllgor Craffu a Throsolwg y Fargen Ddinesig; roedd cofnodion drafft cyfrinachol wedi'u cylchredeg; roedd ymweliad â'r ICE wedi'i gynllunio ac roedd cyfarfod rhaglennu gwaith wedi'i drefnu.

PENDERFYNWYD: nodi'r adroddiad.

55 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Dim

56 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Craffu'r Gyllideb – Dydd Mawrth 19 Chwefror 4.30pm.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.45 pm